cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

2026/27

# PTMN Nodiadau ymgeisio ar gyfer myfyrwyr rhan-amser newydd

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg. Ni wnaiff hynny arafu ein hymateb.
Gallwch hefyd wneud cais ar-lein yn **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

## Ynghylch y nodiadau hyn

Dylid darllen y nodiadau hyn ynghyd â'ch ffurflen gais am grant i fyfyrwyr newydd rhan-amser.

## Dychwelyd eich ffurflen

**Dychwelwch eich ffurflen wedi'i llenwi ac unrhyw ddogfennau at:**

**Cyllid Myfyrwyr Cymru**
**Blwch Post 211**
**Cyffordd Llandudno**
**LL30 9FU**

**Amserlen dychwelyd eich ffurflen**
Dylech ddychwelyd eich ffurflen o fewn naw mis o gychwyn y flwyddyn academaidd, fel arall efallai y gallech golli eich hawl i gael cyllid myfyrwyr.

**Cofiwch dalu'r tâl post cywir.**

## Darganfyddwch ragor

Gallwch ganfod rhagor o wybodaeth am gyllid i fyfyrwyr rhan-amser trwy:

- droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**
- darllen ein canllawiau i fyfyrwyr rhan-amser
- siarad â'ch prifysgol neu eich coleg
- ffonio ni ar **0300 200 4050**

## Gwybodaeth arall

**Ffurfiau eraill**
Gallwch archebu ffurflenni a chanllawiau Braille, print bras neu sain trwy anfon e-bost gyda'ch enw, eich cyfeiriad, a'ch Cyfeirnod Cwsmer ynghyd â manylion y ffurflen a'r fformat yr hoffech eu cael at: **brailleandlargefonts@slc.co.uk** neu gallwch ein ffonio ar **0141 243 3686**. Sylwer, dim ond ceisiadau am ffurflenni a chanllawiau ar ffurfiau eraill y gall y cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod ddelio â hwy.

# 1 Eich manylion personol

## 1.1 Cyfeirnod Cwsmer

ⓖ Eich Cyfeirnod Cwsmer yw eich cyfeirnod personol ac mae'n cynnwys 11 rhif. Bydd gennych un o'r rhain os ydych eisoes wedi cael benthyciad i fyfyrwyr neu unrhyw gyllid arall i fyfyrwyr gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr Cyfyngedig (SLC). Efallai bod gennych gyfeirnod os ydych wedi rhannu gwybodaeth ariannol at ddiben cais myfyriwr arall. Os nad oes gennych un, neu os na wyddoch eich Cyfeirnod Cwsmer, gadewch hyn yn wag.

## 1.2 Manylion personol

ⓣ Bydd angen ichi anfon eich:

- Gweithred newid enw, os yw'n briodol.
- Tystysgrif priodas/ysgariad, os yw'n briodol.
- Gorchymyn diddymu partneriaeth sifil, os yw'n briodol.
- gorchymyn terfynol neu amodol, os yw'n briodol.

## 1.3 Rhif Yswiriant Gwladol

ⓖ Os oes gennych chi Rif Yswiriant Gwladol ond na fyddwch yn ei nodi, ni fyddwch yn cael eich benthyciad(au) a bydd yn rhaid i chi dalu'ch ffioedd dysgu a'ch costau byw eich hun nes byddwch wedi datrys hyn.

Nodir eich Rhif Yswiriant Gwladol ar unrhyw rai o'r canlynol:

- eich cerdyn neu lythyr Rhif Yswiriant Gwladol; **neu**
- slip talu; **neu**
- sogfen treth incwm megis P45 neu P60.

Os nad ydych erioed wedi cael Rhif Yswiriant Gwladol, dylech adael y bocs Rhif Yswiriant Gwladol yn wag. Byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen i chi gymryd unrhyw gamau er mwyn cael Rhif Yswiriant Gwladol.

## 1.4 Profi pwy ydych chi

Os ydych wedi cyflwyno manylion eich pasbort Prydeinig dilys, nid oes rhaid ichi anfon unrhyw dystiolaeth arall i gadarnhau pwy ydych chi.

ⓣ Os nad oes gennych basbort dilys o'r Deyrnas Unedig, gallwch anfon llungopi o'ch tystysgrif geni neu fabwysiadu y Deyrnas Unedig atom.

Os nad oes gennych dystysgrif geni neu fabwysiadu y Deyrnas Unedig, byddwn yn gofyn i chi roi rhai manylion adnabod i ni yn adran 3.

# 1 Eich manylion personol

**1.7 Statws perthynas**

ⓖ Rydych yn 'byw gyda phartner' os ydych yn rhannu cartref gyda'ch partner ond nad ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Nid yw o bwys os ydych o'r un rhyw neu o ddau ryw gwahanol.

Os ydych wedi dechrau partneriaeth sifil dramor neu berthynas cyfreithiol cyfwerth â phartner o'r un rhyw, byddwn yn cysylltu â chi i'ch hysbysu a gaiff hyn ei gydnabod at ddibenion cyllid myfyrwyr.

# 2 Cymorth blaenorol a hanes cymwysterau

**2.2 Gradd gyntaf o un o sefydliadau addysgol y Deyrnas Unedig**

ⓖ Os oes gennych chi radd anrhydedd eisoes o un o sefydliadau addysgol y Deyrnas Unedig, efallai na fyddwch chi'n gymwys i gael Benthyciad Cynhaliaeth, Benthyciad Ffioedd Dysgu, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru neu Grantiau ar gyfer Pobl Ddibynnol.

# 3 Preswylfa

**3.1 Ble ydych chi fel arfer yn byw pan nad ydych chi'n astudio?**

ⓖ Os oes gennych chi gyfeiriad Swyddfa Bost Lluoedd Prydain, dylech roi hyn. Rydym yn defnyddio'r cyfeiriad yma i sicrhau eich bod yn cwblhau'r cais cywir am gyllid i fyfyrwyr.

**3.2 Gwladolyn y DU**

ⓖ Os ydych wedi darparu gwybodaeth am eich pasbort y DU neu dystysgrif eni fel rhan o adran 1, nid oes angen i chi anfon tystiolaeth bellach o'ch cenedligrwydd y DU.

**Lluoedd Arfog**

Os ydych chi, eich rhiant neu rieni neu bartner yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog, rhaid i chi wneud cais am gyllid i fyfyrwyr yn y wlad yn y Deyrnas Unedig ble roeddech yn byw fel arfer pan wnaethoch chi/nhw ymrestru.

Oni bai eich bod yn byw'n barhaol mewn ardal arall o'r Deyrnas Unedig. Gallwch dderbyn copïau ardystiedig o'ch tystiolaeth preswylio, wedi ei stampio â stamp eichuned. Dylech ddefnyddio eich cyfeiriad BFPO ar gyfer pob gohebiaeth.

**3.3 Gwladolyn Gwyddelig**

ⓣ Os atebwch `Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi anfon eich pasbort Gwyddelig neu'r UE.

Os oes gennych chi basbort y DU, dylech ddarparu eich manylion pasbort yn adran 1 gan nad oes angen i chi anfon rhagor o dystiolaeth o'ch cenedligrwydd.

### 3.4 Aelod o deulu gwladolyn y DU

ⓖ

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵr, gwraig, partner sifil;
- plentyn neu lys blentyn

i wladolyn y DU.

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn. Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

ⓣ

Os atebwch 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn aelod o deulu gwladolyn y DU trwy anfon ei basbort/phasbort.

Rhaid i chi hefyd anfon prawf o'ch perthynas i'r gwladolyn y DU. Gallai hyn fod:

- eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil; **neu**
- dystysgrif geni yn dangos eich enw ac enw'r gwladolyn y DU; **a**
- dystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil os ydych chi neu'r gwladolyn y DU yn llys-blentyn.

Ar gyfer disgynnydd uniongyrchol  gwladolion y DU, golyga'r term 'plentyn' rywun 'dan 21 oed; neu ddibynnydd yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn.'

### 3.5 Statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

ⓖ

Os ydych wedi cael statws preswylydd cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch preswyliad yng nghwestiwn **b1**.

### 3.6 Plentyn gwladolyn y Swistir

ⓖ

Rhaid bod gan eich rhiant neu lys riant statws preswylydd sefydlog neu cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Rhaid bod gennych chi statws preswylydd cyn-sefydlog ac yn preswylio fel arfer yn y DU, Gibraltar, AEE neu'r Swistir am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.

ⓣ

Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom, fel prawf o'ch perthynas.

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gwladolyn y Swistir, rhaid i'ch rhiant sy'n wladolyn y Swistir fod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd. Rydym angen llythyr wedi ei lofnodi gan eich rhiant Swisaidd yn datgan ei gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, a'i fod yn byw yno ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd. Rhaid i'r rhiant hefyd anfon un o'r dogfennau canlynol:

- Datganiadau banc
- Slipiau cyflog
- Cytundeb tenantiaeth/Datganiad morgais
- Bil cyfleustod
- Gohebiaeth Awdurdod Lleol
- Gohebiaeth adran o'r Llywodraeth

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **b2**.

### 3.7 Gweithiwr yr AEE neu'r Swistir

ⓖ

Perthynas fy aelod o'r teulu i mi yw:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant; neu
- plentyn, llys blentyn (ddim ond yn berthnasol i aelodau'r teulu sy'n weithwyr AEE.)
- aelod o'r teulu arall mewn llinell esgynnol neu ddisgynnol uniongyrchol (ddim ond yn berthnasol i aelodau'r teulu sy'n weithwyr AEE.)

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn. Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Diffinnir perthynas uniongyrchol yn y llinell esgynnol fel rhiant, nain neu daid, hen nain neu daid biolegol ac ati i unigolyn. Rydych chi'n berthynas uniongyrchol yn llinell esgynnol eich plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres ac ati.

I gael cyllid i fyfyrwyr fel aelod o deulu gwladolyn yr AEE neu'r Swistir sy'n gweithio, wedi gweithio neu'n chwilio am waith yn y DU, rhaid eich bod chi a'ch aelod o'r teulu fod wedi derbyn statws preswylydd cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswylio' Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

### 3.7 Gweithiwr yr AEE neu'r Swistir - parhad

(t)

Fel prawf o'ch perthynas, rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni ac/neu dystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil.

Fel prawf o statws cyflogaeth cyfredol y gwladolyn o'r AEE neu Swisaidd, rhaid darparu un o'r canlynol yn dystiolaeth:

- P60 neu lythyr gan gyflogwr os yw'n gweithio ar hyn o bryd;
- Cyfrifon wedi'u harchwilio, ffurflenni treth neu fanylion am ei incwm os yw'n hunangyflogedig;
- Llythyr gan gyflogwr sy'n cadarnhau'r bwriad i barhau i weithio yn ystod y cyfnod pan fydd yn astudio;
- P45, P60 neu lythyr gan gyflogwr blaenorol os yw'n chwilio am waith ar hyn o bryd, neu os yw wedi bod yn gweithio yn y DU yn flaenorol.

Os ydych chi'n rhiant neu berthynas llinell esgynnol uniongyrchol arall i'r gweithiwr rhaid eich bod yn ddibynnol arnynt.

Ar gyfer disgynnydd uniongyrchol gweithwyr o'r AEE, golyga'r term 'plentyn' rywun 'dan 21 oed; neu ddibynnydd yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn.' Nid yw hyn yn berthnasol mewn achosion ble mae'r rhiant gweithiwr AEE wedi marw neu adael y DU a bod y plentyn yn aros ymlaen i gwblhau ei addysg yn y DU.

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **b1**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **b2**.

### 3.8 Plentyn gweithiwr Twrcaidd

(g)

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gweithiwr o Dwrci, rhaid bod eich rhiant o Dwrci yn gweithio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs. Rhaid eich bod yn preswylio fel arfer yn y DU, Gibraltar, AEE y Swistir neu Dwrci am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.

(t)

Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom.

Fel prawf o gyflogaeth eich rhiant yn y DU, rhaid i chi anfon ei gontract/chontract cyflogaeth.

Rhaid i chi hefyd anfon llythyr y Swyddfa Gartref yn cadarnhau bod gan eich rhiant hawl estynedig i aros yn y DU wedi 31 Rhagfyr 2020.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **b2**.

**3.9 Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP), Y Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS) neu'r Llwybr Ymateb Affganistan (ARR)**

(g) **Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **b3**.

**Dyddiad dod i ben**

Os ydych wedi derbyn y statws hwn heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

(t) **Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

**Dyddiad dod i ben**

Os yw eich:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys-riant

wedi derbyn y statws hwn heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **b4**.

(g) **Cynllun Ex-Gratia Staff Affganaidd a Gyflogwyd yn Lleol**

Roedd y cynllun hwn ar gyfer gweithwyr blaenorol llywodraeth y Deyrnas Unedig a ymddiswyddodd neu a ddiswyddwyd o'u swydd. Nid yw gwladolion Affganaidd sydd wedi eu hail-leoli i'r Deyrnas Unedig dan y cynllun hwn yn gymwys i dderbyn cyllid i fyfyrwyr.

**3.10 Statws preswylydd sefydlog**

Mae 'statws preswylydd sefydlog' yn golygu eich bod yn gallu byw yn y DU yn barhaol heb i'r Swyddfa Gartref osod unrhyw gyfyngiadau ynghylch hyd eich cyfnod yma.

Rydych yn rhydd o unrhyw gyfyngiadau os yw un o'r canlynol yn gymwys:

- rydych yn ddinesydd Prydeinig;
- rhoddwyd 'caniatâd i aros am amser amhenodol' i chi;
- mae gennych hawl i gartrefu yn y DU.

Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch hawl preswylio parhaol a materion eraill sy'n ymwneud â mewnfudo gan y Swyddfa Gartref.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **b1**.

**3.11 Caniatâd mynediad neu aros cyfyngedig dan Gynllun Wcráin**

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **b3**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Mae'n rhaid eich bod wedi bod yn briod neu'n bartner sifil i'r person â chaniatâd ar ddyddiad y cais am ganiatâd.

Os ydych chi'n blentyn neu'n llysblentyn i'r person sydd â chaniatâd, mae'n rhaid mai chi oedd y plentyn neu'r llysblentyn ar ddyddiad y cais am ganiatâd, a hefyd o dan 18 oed ar y dyddiad hwnnw.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **b4**.

### 3.12 Statws ffoadur

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn ffoadur, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i'r Swyddfa Gartref fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil ffoadur, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais am loches.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **b3**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **b4**.

### 3.13 Person heb Wladwriaeth

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddydduad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **b3**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **b4**.

**3.14 Caniatâd mynediad neu aros**

(g)

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni) llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **b1**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **b2**.

### 3.15 Diogelwch Dyngarol

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni) llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb

ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **b3**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiw **b4**.

### 3.16 Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig dan Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **b3**.

### 3.17 Caniatâd Calais

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **b3**.

**3.18 Dioddefwr trais neu gam-drin domestig**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi neu'ch rhiant/llys-riant wedi derbyn caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig, byddwch chi, neu eich rhiant, wedi derbyn llythyr gan y Swyddfa Gartref i gadarnhau hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros fel dioddefwr trais domestig, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **b3**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch rhiant/llys-riant**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **b4**.

**3.19 Partner mewn profedigaeth**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi neu'ch rhiant/llys-riant wedi derbyn caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas fel person sydd wedi bod yn bartner mewn profedigaeth, byddwch chi, neu eich rhiant, wedi derbyn llythyr gan y Swyddfa Gartref i gadarnhau hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros fel partner mewn profedigaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

**Os cawsoch y caniatâd hwn**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswylio yng nghwestiwn **b3**.

**Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch rhiant/llys-riant**

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswylio chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **b4**.

**!** Os rhoddoch ateb negyddol i'r holl gwestiynau yn yr adran hon, nid ydych yn gymwys i dderbyn cyllid gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Efallai y byddwch yn dal i allu cael cyllid Ffioedd Dysgu yn unig os ydych chi'n wladolyn o'r UE/AEE neu'n wladolyn Gwyddelig. Am ragor o wybodaeth ar gyllid Cefnogaeth Ffioedd yn unig, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

**c2 & c3 Statws preswylio**

ⓖ Dylech ddarparu manylion eich cyfeiriad o'r pwynt y rhoddwyd eich statws neu hyd at uchafswm o dair blynedd cyn dechrau'r flwyddyn academaidd os rhoddwyd eich statws cyn hynn.

| Dyddiad cychwyn astudio rhwng | Dyddiad cychwyn y flwyddyn academaidd |
|---|---|
| 1 Awst a 31 Rhagfyr yn gynhwysol | 1 Medi |
| 1 Ionawr a 31 Mawrth yn gynhwysol | 1 Ionawr |
| 1 Ebrill a 30 Mehefin yn gynhwysol | 1 Ebrill |
| 1 Gorffennaf a 31 Gorffennaf yn gynhwysol | 1 Gorffennaf |

**c5 Statws preswylio**

ⓖ Mae angen y wybodaeth hon arnom oherwydd gallai hanes preswylio eich aelod o'ch teulu effeithio ar eich cymhwysedd i gael cyllid i fyfyrwyr. Sicrhewch fod y person hwn yn gwybod eich bod yn rhoi ei fanylion i ni.

Os oeddech o dan 18 oed yn y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs, mae angen y wybodaeth hon arnom gan ein bod yn cymryd yn ganiataol eich bod yn byw yn yr un lle â'ch rhieni. Os oeddent yn byw neu'n gweithio y tu allan i:

- y Deyrnas Unedig a'i Hynysoedd, neu
- yn achos gwladolyn o'r UE, yr AEE neu'r Swistir, y tu allan i'r DU, Gibraltar, AEE neu'r Swistir

yn y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs, byddwn yn gofyn am dystiolaeth i ddangos mai seibiant dros dro yn y preswyliad oedd hwn.

Os oes gennych briod neu bartner, rydym yn cymryd eich bod wedi bod yn byw yn yr un lle â nhw. Os oeddent yn byw neu'n gweithio y tu allan i:

- y Deyrnas Unedig a'i Hynysoedd, neu
- yn achos gwladolyn o'r UE, yr AEE neu'r Swistir, y tu allan i'r DU, Gibraltar, AEE neu'r Swistir

yn y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs, byddwn yn gofyn am dystiolaeth i ddangos mai seibiant dros dro yn y preswyliad oedd hwn.

# 4 Ynghylch eich prifysgol neu goleg a'ch cwrs

**4.8 Credydau eich cwrs**

(g) Mae bob modiwl y byddwch yn ei astudio yn werth nifer benodol o gredydau. Dylech chi gytuno â'ch prifysgol neu eich coleg ynghylch faint o gredydau y byddwch yn eu hastudio.

Os na allwch gadarnhau faint o gredydau y byddwch yn eu hastudio eto, fe wnawn ni asesu eich cais gan ddefnyddio'r nifer isaf o gredydau y gellir eu hastudio ar eich cwrs. Dylech chi gysylltu â ni ar ôl i chi gytuno nifer eich credydau â'ch prifysgol/coleg.

**4.9 Cyfanswm y Ffi Dysgu a godir**

(g) Os nad ydych yn sicr faint fydd fydd eich ffioedd dysgu, holwch eich prifysgol neu eich coleg i gael gwybod am hynny. Dylech nodi swm ar eich ffurflen er mwyn i'r cais gael ei dderbyn.

**4.10 Addysg Gychwynnol i Athrawon**

(g) Mae cwrs uwchraddedig Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (HCA) rhan-amser yn gwrs a wneir ar ôl cyflawni gradd gyntaf (Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) a chyrsiau cyfatebol).

**4.11 Erasmus+, Cynllun Turing neu ILE (Taith)**

(g) Os ydych chi'n cwblhau lleoliad yn rhan o'r Cynllun Turing, rhaglen Erasmus+, neu'r Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu (ILE) (a elwir hefyd yn Taith), ni fyddwch yn gymwys ar gyfer ffioedd addysgu.

**4.13 Dysgu o bell oherwydd rheswm sy'n ymwneud ag anabledd**

(t) Os ydych chi'n astudio ar gwrs dysgu o bell amser llawn oherwydd eich bod chi neu aelod o'ch teulu yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog tu allan i Gymru, **nid** oes rhaid i chi anfon tystiolaeth o anabledd.

## 4.14 Lluoedd Arfog

g

Efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth i astudio cwrs dysgu o bell tu allan i'r Deyrnas Unedig os ydych chi neu'ch aelod o'r teulu (yr ydych chi'n byw gydag ef neu hi) ar hyn o bryd yn gwasanaethu dramor yn un o'r canlynol:

- Y Gwasanaeth Llyngesol (y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol)
- Y Fyddin
- Yr Awyrlu Brenhinol
- Yr Heddlu Milwrol Brenhinol
- Y Gyrcas

Bydd yr aelodau teulu canlynol yn fyfyrwyr cymwys:

- cymar neu bartner sifil yn byw gydag aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
- plentyn, llys-blentyn neu blentyn mabwysiadol dan 25 oed yn byw gydag aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn gwasanaethu tu allan i Gymru
- Rhiant dibynnol yn byw naill ai gyda:
  - phlentyn sy'n aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
  - cymar neu bartner sifil y plentyn sy'n aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu tu allan i Gymru.

t

**Os ydych chi yn y lluoedd arfog**

Mae angen i chi anfon llythyr yn cadarnhau eich enw a'ch cyfeiriad (neu gyfeiriad BFPO) ac ym mha wlad roeddech chi'n preswylio fel arfer cyn i chi symud i'ch lleoliad presennol. Rhaid iddo gadarnhau hefyd y wlad rydych chi wedi'ch lleoli ynddi ar hyn o bryd.

**Os yw'r aelod o'ch teulu yn y Lluoedd Arfog**

Mae angen i chi anfon llythyr atom ni yn cadarnhau'r canlynol:

- ei enw
- ei gyfeiriad (neu gyfeiriad BFPO)
- eich enw
- ei berthynas â chi
- os yw wedi'i leoli dramor neu yn y Deyrnas Unedig ond y tu allan i Gymru
- os ydych chi wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig, y gwlad ble'r oedd yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig cyn iddo fod wedi'i leoli yn ei leoliad presennol
- os nad ydych chi erioed wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig, y wlad ble gwnaeth ymrestru i fod yn aelod o'r Lluoedd Arfog ynddi

Rhaid i'r llythyr a anfonwch gael ei lofnodi, ei stampio a'i ddyddio gan Swyddfa Cofnodion Uned y Lluoedd Arfog.

# 5 Eich cais am fenthyciad

## 5.1 Taliadau'r benthyciad

Byddwn yn talu eich Benthyciad Ffioedd Dysgu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg mewn tri rhandaliad yn ystod y flwyddyn academaidd. Telir pob un o randaliadau eich Benthyciad Ffioedd Dysgu ar ôl inni gael cadarnhad gan eich prifysgol neu eich coleg eich bod yn mynychu eich cwrs. Mae uchafswm y Benthyciad Ffioedd Dysgu y gallwch chi ei gael yn dibynnu ar ble ydych chi'n astudio.

### Atebolrwydd am fenthyciadau

Byddwch yn atebol am eich Benthyciad Ffioedd Dysgu bythefnos wedi dyddiad y tymor cyntaf, ac ar ddechrau'r ail dymor a'r trydydd, nid ar y dyddiadau pryd telir y rhandaliadau i'ch prifysgol neu goleg.

| Atebolrwydd | % cyfanswm y Benthyciad Ffioedd Dysgu y byddwch yn atebol amdano |
|---|---|
| Tymor 1 | 25% |
| Tymor 2 | 50% |
| Tymor 3 | 100% |

### Llog

Ychwanegir llog at weddill eich benthyciad o'r diwrnod y telir rhandaliad cyntaf y benthyciad i'ch prifysgol neu eich coleg. Gallwch gael rhagor o fanylion am hyn a'r gyfradd llog bresennol yn: **www.gov.uk/repaying-your-student-loan**

## 5.2 Benthyciad Cynhaliaeth

Telir y benthyciad hwn fel rhandaliadau yn uniongyrchol i chi, a'i fwriad yw helpu i dalu am eich costau byw trwy gydol y flwyddyn academaidd.

### Cymhwystra

Rhaid i chi fod dan 60 mlwydd oed ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs i fod yn gymwys i gael Benthyciad Cynhaliaeth. Darllenwch y tabl ar dudalen 16 i ganfod pryd fydd eich blwyddyn academaidd yn cychwyn.

### Dyrannu taliadau

Byddwn yn cyfrifo yn y lle cyntaf faint o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru y gallwch ei gael, yna caiff gweddill eich cyllid myfyrwyr ei roi fel Benthyciad Cynhaliaeth. Os byddwch chi'n gofyn am fwy o Fenthyciad Cynhaliaeth na'r hyn sydd gennych chi hawl i'w gael, byddwn yn rhoi'r swm is i chi.

### Ymgeisio am fenthyciad ar ddyddiad diweddarach neu newid y swm a geisiwyd

Gallwch ymgeisio am Fenthyciad Cynhaliaeth neu Benthyciad Ffioedd Dysgu ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd os bydd hynny o fewn y terfyn amser. Fel arfer, bydd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cais yn naw mis o ddechrau eich blwyddyn academaidd.

Gallwch ymgeisio am Fenthyciad Cynhaliaeth neu Fenthyciad Ffioedd Dysgu, neu newid y swm y gwnaethoch ofyn amdano'n wreiddiol, yn **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### 6.3 Gofalu am blentyn

ⓖ Mae gofalu am rywun sydd dan 18 oed yn golygu eich bod yn gofalu am blentyn a bod y plentyn yn byw gyda chi, beth bynnag fo'ch perthynas â'r plentyn.

ⓣ Anfonwch gopi o dystiolaeth sy'n dangos mai chi sy'n gofalu am y plentyn, er enghraifft, tystiolaeth eich bod yn derbyn Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant neu elfen plentyn Credyd Cynhwysol.

### 6.4 Ymddieithrio heb obaith cymodi

ⓖ Fel arfer byddwch yn cael eich ystyried fel rhywun sydd wedi ymddieithrio heb obaith cymodi oddi wrth eich rhieni os na fyddwch wedi cael unrhyw gyswllt llafar nac ysgrifenedig â'ch dau riant biolegol neu fabwysiadol, neu'ch unig riant sy'n fyw, am 12 mis neu ragor cyn cychwyn ar eich blwyddyn academaidd, ac ni wnaiff hyn newid.

Ni chewch eich ystyried i fod wedi ymddieithrio heb obaith cymodi oddi wrth eich rhieni oherwydd:

- nad ydych yn gallu cyd-dynnu'n dda â'ch rhieni;
- nad ydych yn byw gyda'ch rhieni;
- nad yw eich rhieni am roi manylion eu hincwm; neu
- mae eich rhieni yn dewis peidio â rhoi cymorth ariannol i chi.

**Dan ofal cyfreithiol awdurdod lleol, neu dan orchymyn gwarchodaeth arbennig**

ⓖ Os ydych wedi bod yng nghystodaeth neu ofal cyfreithiol Awdurdod Lleol, neu dan orchymyn gwarchodaeth arbennig ar unrhyw adeg rhwng 14 ac 16 oed (cyn cychwyn eich cwrs) ond wedi bod yn ôl yng ngofal cyfreithiol eich rhieni, byddwch yn dal i gael eich ystyried yn annibynnol.

Dim ond os ydych chi'n ymgeisio am unrhyw grantiau ar gyfer dibynyddion, fel Lwfans Dysgu Rhieni (PLA) a Grant Oedolion Dibynnol (ADG) y dylech chi anfon tystiolaeth o incwm eich cartref atom.

**6.5 Hunangynhaliaeth**

ⓖ

Er mwyn cael eich ystyried fel unigolyn hunangynhaliol, rhaid i chi fod wedi bod yn talu eich costau byw eich hun am 3 blynedd o leiaf (nid oes yn rhaid iddynt fod yn 3 blynedd olynol) o unrhyw un o'r ffynonellau isod:

- Incwm o hunangyflogaeth;
- Budd-daliadau;
- Ysgoloriaethau ymchwil y wladwriaeth;
- Ysgoloriaethau, arddangosfeydd a bwrsariaethau.

Ni ystyrir eich bod yn hunangynhaliol os ydych yn talu eich costau byw gan ddefnyddio arian y byddwch yn ei gael gan riant.

ⓣ

Llungopi o'ch ffurflenni P60 neu wybodaeth am eich budd-daliadau.

# 7 Cwestiynau ariannol myfyrwyr

### 7.1 Incwm heb ei ennill

ⓖ

Efallai y gofynnir i chi gadarnhau unrhyw amcangyfrif o'ch incwm yn ddiweddarach.

Os yw eich gwir incwm yn wahanol i'r amcangyfrif, byddwn yn ail asesu eich hawl i gyllid myfyrwyr. Gall hyn newid y lefel o gymorth ariannol y byddwch yn ei gael.

Wrth gyfrifo eich incwm trethadwy heb ei ennill ni ddylech gynnwys:

- enillion o waith amser llawn neu ran-amser fel gwaith yn y gwyliau neu waith y byddwch yn ei wneud yn ystod y tymor;
- unrhyw Fenthyciad Cynhaliaeth neu daliadau grant y gallwch eu derbyn;
- taliadau y byddwch chi'n eu cael gan eich rhieni trwy gyfamod;
- taliadau cynhaliaeth y byddwch chi'n disgwyl eu cael ar gyfer eich plant. Dylai'r taliadau cynhaliaeth hyn gael eu cynnwys fel rhan o incwm eich plant yng nghwestiwn 8c;
- Bwrsariaethau Hyfforddi Athrawon;
- Bwrsariaeth Addysg Uwch (i'r sawl sy'n gadael gofal);
- cymorthdaliadau a delir gan y lluoedd arfog i filwyr wrth gefn neu bensiynau anabledd neu anallu; neu
- ISAs.

### 7.2.1 Taliadau gan gyflogwr

ⓖ

Dylech nodi swm yma dim ond os byddwch yn cael eich rhyddhau o'ch gwaith gan eich cyflogwr i ddilyn y cwrs. Os yw hynny'n wir, dim ond cyflog ar gyfer y dyddiau yr ydych yn mynychu'r cwrs ac wedi cael eich rhyddhau o'ch gwaith ar eu cyfer y dylech ei gynnwys. Gall unrhyw enillion o gyflog a nodir yma gael effaith ar eich hawl i gyllid myfyrwyr.

**Peidiwch** â nodi unrhyw swm yma os ydych yn fyfyriwr sy'n gweithio tra byddwch yn astudio ond nad ydych wedi cael eich rhyddhau yn benodol gan eich cyflogwr i fynychu eich cwrs.

### 7.3 Plant dibynnol

(g)

Rhaid ichi gynnwys unrhyw incwm a gaiff y plentyn trwy weithio, o log a enillwyd ar gynilon, o fuddsoddiadau ac o unrhyw daliadau cynhaliaeth rydych yn disgwyl eu cael ar gyfer eich plant fel rhan o'u hincwm hwy yn y cwestiwn hwn.

Peidiwch â chynnwys incwm o ffynonellau megis Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant, elfen plant y Credyd Cynhwysol, Cronfa Ymddiriedolaeth Plant y Llywodraeth neu symiau minimol o arian o ffynonellau eraill wrth nodi incwm plentyn dibynnol.

Os bydd incwm eich plentyn dibynnol yn llai o 15% o leiaf nag yr oedd yn y flwyddyn dreth 2024-25 gallwch wneud cais am asesiad o incwm y flwyddyn gyfredol. Bydd hyn yn golygu ein bod yn defnyddio ei incwm disgwyliedig ar gyfer blwyddyn dreth 2026-27 yn hytrach na'i wir incwm ar gyfer 2024-25 wrth gyfrifo eich hawl i gael grant. Os dymunwch gael eich asesu gan ddefnyddio'r incwm disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn dreth 2026-27defnyddiwch y tudalennau nodiadau ychwanegol ar gefn y ffurflen gais i roi manylion i ni.

**Incwm y plentyn**

(t)

Anfonwch lungopïau o dystiolaeth yn dangos incwm y plentyn o bob ffynhonnell ar ôl didynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ym mlwyddyn dreth 2024-25.

# 9 Cymorth Arbennig

Cewch eich asesu am Cymorth Arbennig unwaith y byddwn yn cael tystiolaeth yn dangos eich bod yn gymwys. Os nad oes gennych y dystiolaeth nawr, dylech anfon eich cais beth bynnag ac anfon y dystiolaeth cyn gynted ag y bo modd. (g)

Am ragor o wybodaeth am Gymorth Arbennig, ewch **i www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Gallwch hefyd ymgeisio am Gymorth Arbennig os ydych chi'n unig riant maeth i blentyn neu berson ifanc dan 20 sydd mewn addysg amser llawn islaw lefel addysg uwch. (t)

| Categori Cymorth Arbennig | Eitem(au) tystiolaeth angenrheidiol |
| --- | --- |
| Rydych yn rhiant unigol (neu'n rhiant maeth unigol) plentyn neu berson ifanc o dan 20 oed sydd mewn addysg amser llawn o dan lefel addysg uwch | • Copïau o dystiolaeth sy'n dangos Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant neu elfen plentyn Credyd Cynhwysol, ar gyfer pob plentyn a enwir. |
| Mae gennych bartner sydd hefyd yn fyfyriwr amser llawn, ac mae un neu'r ddau ohonoch yn gofalu am blentyn neu berson ifanc dan 20 oed sydd mewn addysg amser llawn islaw lefel addysg uwch | • Copïau o dystiolaeth sy'n dangos Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant neu elfen plentyn Credyd Cynhwysol, ar gyfer pob plentyn a enwir, **a**<br>• Llythyr yn cadarnhau bod eich partner yn fyfyriwr os nad yw wedi gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr. |
| Mae gennych anabledd ac yn gymwys i gael Premiwm Anabled neu Bremiwm Anabledd Difrifol | • Tystiolaeth i ddangos eich bod yn gymwys i gael<br>• Premiwm Anabledd **neu**<br>• Premiwm Anabledd Difrifol, **neu**<br>• Tystiolaeth i ddangos eich bod yn gymwys i gael **un** o'r budd-daliadau canlynol:<br>Lwfans Byw i'r Anabl<br>Credyd Treth Person Anabl<br>Lwfans Gweini<br>Lwfans Gweini Cyson<br>Taliad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel<br>Lwfans Anabledd Difrifol<br>Budd-dal Analluogrwydd |
| Rydych yn fyddar ac yn gymwys i gael Lwfans Myfyrwyr Anabl | • Tystiolaeth feddygol o'ch anabledd os nad ydych wedi gwneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl. |
| Rydych wedi'ch trin fel pe na allech weithio am gyfnod parhaus o 28 wythnos o leiaf | • Llythyr gan y Ganolfan Byd Gwaith yn cadarnhau eich bod yn cael budd-daliadau analluogrwydd hirdymor, **neu**<br>• Lythyr gan eich meddyg yn cadarnhau na allwch weithio. |
| Mae gennych anabledd ac yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm | • Llythyr gan y Ganolfan Byd Gwaith i gadarnhau eich bod yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) oherwydd anabledd, **neu**<br>• Llythyr hawl am ESA a phrawf o'ch tystiolaeth, er enghraifft llythyr gan eich meddyg. |

| Categori Cymorth Arbennig | Eitem(au) tystiolaeth angenrheidiol |
|---|---|
| Rydych yn aros i fynd yn ôl ar gwrs ar ôl salwch neu gyfrifoldebau gofalu | • Llythyr gan y brifysgol neu'r coleg i gadarnhau bod gohiriad eich cwrs wedi'i awdurdodi, **a**<br>• Tystiolaeth o salwch neu angen i ofalu am unigolyn arall. |
| Rydych yn 60 oed neu'n hŷn | • Nid oes angen i chi anfon rhagor o dystiolaeth. Bydd yr wybodaeth neu'r dystiolaeth rydych yn ei darparu i gadarnhau pwy ydych chi yn profi eich bod yn 60 oed neu'n hŷn. |
| Mae gennych hawl i gael Budd-dal Tai neu elfen tai'r Credyd Cynhwysol | • Llungopi o lythyr hawl dyddiedig wedi dyddiad cychwyn eich cwrs, yn cadarnhau eich bod yn gymwys i gael Budd-dal Tai neu elfen tai'r Credyd Cynhwysol tra'ch bod yn astudio. |
| Mae gennych hawl i gael Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)<br>**neu**<br>Mae gennych hawl i gael Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) | • Tystiolaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i gadarnhau bod gennych hawl i gael un o'r taliadau hyn. |
| Mae gennych hawl i gael Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog (AFIP) | • Tystiolaeth gan Asiantaeth y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr (SPVA) **neu** DWP i gadarnhau bod gennych hawl i gael y taliad hwn. |

# 10 Ynghylch eich teulu

**Myfyrwyr dibynnol**

ⓖ

Os ydych chi'n fyfyriwr dibynnol, mae'r perthnasau canlynol yn cyfrif at ddibenion asesu incwm:

- eich rhieni naturiol neu fabwysiadol, os yw'r ddau ohonynt yn byw gyda chi.
- eich rhiant a'i bartner, os oes ganddo/ganddi un.

Diffinnir partner eich rhiant fel:

- eich llystad neu eich llysfam.
- partner eich rhiant o'r rhyw arall neu o'r un rhyw os ydynt yn cyd-fyw fel pe baent yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

**Myfyrwyr annibynnol**

ⓖ

Os ydych yn fyfyriwr annibynnol, dim ond eich partner, os oes gennych un, fydd yn cyfrif.

Diffinnir eich partner fel a ganlyn:

- eich gŵr, gwraig neu bartner sifil;
- eich partner o'r rhyw arall neu o'r un rhyw, os ydych yn byw gyda'ch partner fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

# 12 Manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25 i rieni a phartneriaid

**Beth fydd yn digwydd os yw incwm fy nghartref wedi newid ers blwyddyn dreth 2024-25?**

Os bydd cyfanswm incwm eich cartref (cyn treth) ar gyfer blwyddyn dreth 2026-27 o leiaf 15% yn llai nag yr oedd ym mlwyddyn dreth 2024-25, llenwch yr adran hon o hyd yn ogystal â chwblhau 'Ffurflen Asesu Incwm y Flwyddyn Gyfredol'.
Gallwch lawrlwytho'r ffurflen hon yn: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** a'i dychwelyd gyda'r cais hwn.

> **!** Noder na ellir cyflawni asesiad incwm blwyddyn bresennol oni bai eich bod yn darparu'ch manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25.

## Rhan B – Rhannu data a chi

Byddwn yn gwirio eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) gyda Chyllid a Thollau EF. Fe gedwir yr wybodaeth hon yn ddiogel ac yn gyfan gwbl yn unol â darpariaethau'r ddeddfwriaeth diogelu data perthnasol yn y Deyrnas Unedig.
Os nad oes gennych rif YG rhaid i chi ddarparu copïau o'ch dogfennau ariannol.
Os nad oedd gennych unrhyw incwm ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25, mae angen i chi ddarparu:

- llythyr oddi wrthych yn cadarnhau nad oedd gennych unrhyw incwm ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25; neu
- llythyr gan unrhyw drydydd parti a oedd yn eich cefnogi yn ystod y flwyddyn dreth (fel partner)

Rhaid i'r llythyr gael ei lofnodi a'i ddyddio er mwyn iddo gael ei dderbyn.

## Rhan C – Incwm arall ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25

Rhowch wybodaeth ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25. Fel arfer, dyma'r flwyddyn sy'n dod i ben 5 Ebrill 2025, ond gall fod yn wahanol os oes gan eich cyflogwr neu fusnes flwyddyn dreth nad yw'n dod i ben ym mis Ebrill.

**C1** **Incwm yn y DU nad yw CThEF yn gwybod amdano**
Efallai eich bod wedi ennill o dan y trothwy i ddatgan yr incwm hwn i CThEF, ond bydd hwn yn dal i gael ei ddefnyddio i gyfrifo hawl y myfyriwr(myfyrwyr).

# 12 Manylion ariannol – parhad

## Rhan D – Incwm tramor ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25

**C1 Incwm o dramor nad ydych wedi dweud wrth CThEF amdano eisoes**
Dim ond am unrhyw incwm a enillwyd dramor nad ydych eisoes wedi'i ddatgelu i CThEF fel rhan o'ch hunanasesiad y mae'n rhaid i chi ddweud wrthym.

**a Cyfanswm incwm o gyflog/hunangyflogaeth**
Bydd angen i chi ddarparu copïau o'ch dogfennau treth o'r wlad berthnasol yn cadarnhau swm yr incwm ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25.

**b Cyfanswm incwm o fudd-daliadau'r wladwriaeth**
Bydd angen i chi ddarparu copïau o'ch dogfennau budd-daliadau, o'r wlad berthnasol, yn cadarnhau cyfanswm y budd-dal(iadau) trethadwy a gawsoch ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25.

**c Cyfanswm incwm o bensiwn (neu bensiynau) galwedigaethol, preifat neu wladwriaeth**
Bydd angen i chi ddarparu copïau o'ch dogfennau pensiwn, o'r wlad berthnasol, yn cadarnhau cyfanswm y pensiwn(pensiynau) trethadwy a gawsoch ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25.

## Rhan E – Didyniadau incwm

**Os na wnaethoch dalu unrhyw gyfraniadau pensiwn preifat neu gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol**
Nid oes angen i chi ddarparu tystiolaeth o hyn.
**Os taloch unrhyw gyfraniadau pensiwn preifat neu gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol**
Mae'r dystiolaeth y mae angen i chi ei darparu i'w gweld yn y tabl isod.

| Math didyniad | Angen tystiolaeth |
|---|---|
| Cyfraniad pensiwn preifat | Ffurflen Dreth (pob tudalen) neu Ddatganiad gan Ddarparwr Pensiwn |
| Cyfraniad gwirfoddol ychwanegol (AVC) | Cadarnhad gan DWP o Swm y Pensiwn a Dalwyd, Ffurflen Dreth (pob tudalen) neu P60 |

## Rhan F – Eich dibynyddion

### Blwyddyn academaidd

Dylech ddarparu incwm y plentyn dibynnol ar gyfer y flwyddyn academaidd. Pennir y flwyddyn academaidd yn ôl pryd y bydd y myfyriwr yn dechrau ei astudiaethau.

| Mae astudiaethau'r myfyriwr yn dechrau rhwng | Blwyddyn academaidd |
|---|---|
| 1 Ionawr 2026 a 31 Rhagfyr 2026 yn gynhwysol | 1 Medi 2026 hyd 31 Awst 2027 |
| 1 Ionawr 2027 a 31 Mawrth 2027 gynhwysol | 1 Ionawr 2027 hyd 31 Rhagfyr 2027 |
| 1 Ebrill 2027 a 30 Mehefin 2027 yn gynhwysol | 1 Ebrill 2027 hyd 31 Mawrth 2028 |
| 1 Gorffennaf 2027 a 31 Gorffennaf 2027 yn gynhwysol | 1 Gorffennaf 2027 hyd 30 Mehefin 2028 |

## Plant dibynnol nad ydynt mewn addysg bellach

**C1** Mae incwm y dibynnydd sy'n blentyn yn ofynnol i asesu'r cymhwyster ar gyfer y didyniadau yng nghyfrifiad incwm y cartref ar gyfer pob plentyn sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol ddibynnol yn ariannol ar y myfyriwr, gwr, gwraig neu bartner y myfyriwr neu rieni neu lys rieni'r myfyriwr.
Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut y cyfrifir incwm y cartref trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**
Peidiwch â chynnwys incwm o ffynonellau megis Ymddiriedolaeth Plant y Llywodraeth, Budd-dal Plant y Wladwriaeth, Credyd Treth Plant, elfen plant y Credyd Cynhwysol neu isafsymiau o arian o ffynonellau eraill wrth nodi incwm dibynnydd sy'n blentyn.

## Datganiad i rieni a phartneriaid

Os na fydd unrhyw unigolyn/unigolion a enwir yn adran 12 yn gallu llofnodi'r ffurflen, rhaid i'w atwrnai ei llofnodi ar eu rhan. Rhaid anfon llythyr y Pŵer Atwrnai gyda'r cais hwn cyn y derbynnir llofnod gan y atwrnai hwnnw.

### Newid mewn amgylchiadau

Rhaid i chi hysbysu'r SLC o unrhyw newid i'ch amgylchiadau, a allai effeithio ar hawl y myfyriwr i gael cymorth ariannol.

Y newidiadau mwyaf cyffredin mewn amgylchiadau fyddai:

- os bydd incwm eich cartref yn newid; neu
- os bydd eich statws priodasol yn newid.

## Gwybodaeth am rannu data ar gyfer dibenion bwrsariaeth ac ysgoloriaeth

Bydd prifysgolion a cholegau yn cynnig gwobrau ariannol megis bwrsariaethau neu ysgoloriaethau i'w myfyrwyr. Er mwyn eu helpu i weinyddu'r dyfarniadau hyn (h.y. er mwyn pennu cymhwyster a'r hawl i'w cael, a phan fo hynny'n berthnasol, er mwyn talu bwrsariaethau neu ysgoloriaethau – 'dibenion gweinyddu bwrsariaethau'), byddant yn gofyn i Weinidogion Cymru neu'r SLC i Fyfyrwyr am fynediad at wybodaeth y byddwch yn ei darparu sy'n ymwneud ag unrhyw gais am gyllid i fyfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 (yn y ffurflen hon neu yn y dyfodol).

## Hysbysiad Preifatrwydd

SLC a Llywodraeth Cymru yn Rheolyddion Data ar y cyd dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein datganiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn cynnwys mesur cymhwystra i gael cyllid myfyrwyr, asesu uchafswm y cymorth ariannol sydd ar gael, talu cyllid myfyrwyr a chanfod ac atal twyll, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth i wneud unrhyw un o'r rhain.

Am ragor o wybodaeth ynghylch sut y defnyddir eich gwybodaeth, pwy sy'n gyfrifol amdani, a'r hawliau sydd gennych mewn cysylltiad â hyn, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd llawn sydd ar gael ar-lein ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd**

Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch ni ar **0300 200 4050** a gallwn anfon copi atoch.

# Amodau a Thelerau

**Atwrneiaeth**

Os na allwch lofnodi'r ffurflen, rhaid i'ch atwrnai lofnodi'r ffurflen ar eich rhan. I ganiatâu Atwrneiaeth i unigolyn, bydd angen ichi lenwi ffurflen gyfreithiol yn nodi ei enw, y cyfnod penodol y gall weithredu ar eich rhan, a'r tasgau penodol y gall berfformio. Rhaid anfon y llythyr Atwrneiaeth gyda'r cais cyn gellir derbyn llofnod gan yr atwrnai hwnnw.

**Hysbysiad Preifatrwydd**

Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) a Llywodraeth Cymru yn Gyd-reolyddion Data o dan Ddeddfwriaeth Gwarchod Data. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein datganiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn cynnwys mesur cymhwystra i gael cyllid myfyrwyr, asesu uchafswm y cymorth ariannol sydd ar gael, talu cyllid myfyrwyr a chanfod ac atal twyll, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth i wneud unrhyw un o'r rhain.

I gael rhagor o wybodaeth am y dull o ddefnyddio eich gwybodaeth, pwy sy'n gyfrifol amdani a'r hawliau sydd gennych chi mewn cysylltiad â hynny, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd llawn sydd ar gael yn **www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk/hysbysiad-preifatrwydd**

Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch ni ar **0300 200 4050** a gallwn ni anfon copi atoch chi.

**Rhannu data at ddibenion bwrsariaeth ac ysgoloriaeth**

Efallai y byddwch yn gymwys am fwrsariaeth neu ysgoloriaeth. Er mwyn i brifysgol neu goleg allu pennu a thalu unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth y bydd gennych hawl iddo, byddwn yn rhannu rhywfaint o'ch manylion personol, ariannol a chwrs yn ogystal â gwybodaeth am eich cymhwyster am gyllid i fyfyrwyr gyda nhw.

# Camau nesaf ar eich taith cyllid myfyrwyr

1

Byddwch **chi** yn llenwi ac yn dychwelyd eich ffurflen gais atom, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth, cyn gynted ag y bo modd.

**Rydych chi yma**

2

Byddwn **ni** yn prosesu eich cais. Os bydd gwybodaeth ar goll neu'n anghywir, byddwn yn cysylltu â chi. Ar ôl cael yr holl wybodaeth angenrheidiol, byddwn yn anfon llythyr Hawl i Gyllid Myfyrwyr atoch.

3

Byddwch **chi** yn dangos eich llythyr Hawl i Gyllid Myfyrwyr i'ch prifysgol neu goleg (os byddant yn gofyn am ei weld).

4

Byddwn **ni** yn talu eich Benthyciad Ffi Dysgu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu eich coleg ar ôl iddynt ein hysbysu eich bod yn mynychu eich cwrs (os yw'n berthnasol).

Byddwn **ni** yn talu eich Grant Dysgu a/neu Fenthyciad Cynhaliaeth Llywodraeth Cymru i chi.